

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

14/5/2015

Presennol: Y Maer, Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer, Edith Roberts, Dilys Evans, Dorothe Evans, Sharon Evans, Ivora Jones, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Carol Rowlands, John C Williams, Y Clerc.

Ymddiheuriadau: Islwyn Pritchard Jones, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan

1. Wrth esgyn i'r Gadair a diolch am y fraint o gael ei ethol yn Faer Cyngor Tref Y Bala, talodd Eifion Roberts deyrnged i lywyddiaeth y cyn-Faer, Mrs Ivora Jones, a'r modd urddasol iddi gynrychioli tref Y Bala ar nifer o achlysuron cyhoeddus. Ar ran y Cyngor diolchodd iddi am ei gwaith a'i llywyddiaeth ar hyd y flwyddyn a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gyd-weithio gyda'r Dirprwy Faer, Mrs Edith Roberts, aelodau'r Cyngor a'r Clerc.

2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Nid oedd datganiadau buddiant.

4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ebrill 2il, 2015

5. Materion y Clerc:

- Hysbysfwrdd – disgwylir i hwn gyrraedd yn fuan.
- Derbyniwyd ymateb gan y gweinidog Edwina Hart ac oddi wrth Iolo Tegid o Adran y Cefnffyrdd yn mynegi bod y mater mewn llaw parthed y gŵyn gan drigolion Y Bala am oedi ar yr A494 ger y Rhiwlas.

6. **Materion y Cyngorydd Sir:** Cyfarwyddwyd y Clerc i holi'r Cyngorydd Sir am yr wybodaeth ddiweddaraf parthed Llwybr y Sgotwyr, gan rannu'r ateb gydag Alun Price a Dorothe Evans.

7. **Materion Cynllunio:** Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i gais cynllunio Adeiladau'r Aran ac i Gae Chwarae Heol y Castell

8. Materion Cyllid

- Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf: derbyniwyd taliad Cyngor Gwynedd ar ran Partneriaeth Penllyn a'r Praesept. Cytunwyd i dalu nôl y swm a drosglwyddwyd dau fis yn ôl i'r Cyfrif Cadw. Cytunwyd i ofyn i'r is-bwyllgor Cyllid i ystyried y posibilrwydd o wneud trosglwyddiad arall i'r cyfrif hwnnw, ac i wneud asesiad o risgiau ariannol y Cyngor.
- Derbyniwyd gwybodaeth am daliadau a wnaethpwyd yn ystod y mis diwethaf i gwmni yswiriant Zurich, PAYE, ac i Ysgol Bro Tegid.
- Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
 - Hill & Roberts am wasanaethau cyfrifwyr

- Trosglwyddiad taliad Cyngor Gwynedd i Bartneriaeth Penllyn
 - Ffi Cynhadledd SLCC (talu Cyngor Cymuned Llanuwchllyn)
 - Cyflog y Clerc am fis Ebrill. Cytunwyd gydag argymhelliad yr is-bwyllgor Cyllid i godi cyflog y Clerc i'r uchafswm o'r gyfradd cyflog yn daladwy o fis Ebrill 2015.
 - Prydles Y Domen: cytunwyd i adael y mater ar y bwrdd
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth fod Hill & Roberts wedi cytuno i gofrestru'r Cyngor ar gyfer gwneud taliadau pensiwn i weithwyr y Cyngor. Disgwylir mwy o wybodaeth yng nglyn a hyn yn fuan.
- v. Cymeradwywyd y Fantolen Flynyddol, gan gynnwys mantolen Partneriaeth Penllyn, ar gyfer ei harchwilio gan John Roberts cyn ei hanfon at UHY.

9. Gohebiaeth:

- i. Derbyniwyd copiâu o "Y Llais" a gwybodaeth am Gyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru.
- ii. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Ysgol Bro Tegid am gyfraniad y Cyngor tuag at dreuliau mynychu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
- iii. Ystyriwyd cais "Ffrindiau Neuadd Buddug" am gymorth ariannol i brynu offer i ddangos ffilmiau yn Y Bala a chytunwyd i gyfrannu £1,000.
- iv. Nodwyd derbyn gwybodaeth am grantiau i gynnal cofebion rhyfel.
- v. Nodwyd derbyn llythyr gan yr Ombwdsman parthed mân gwynion.
- vi. Derbyniwyd enwau Cyngorwyr a fydd yn mynychu cyfarfod Her Gwynedd 9/5/15.

10. **Asedau'r Cyngor** – derbyniwyd adroddiad Dilys Evans ar eu cyflwr a chytunodd Carol Rowlands i wneud yr archwiliad nesaf. Diolchwyd i John C Williams am ofalu am waith cynnal a chadw i'r meinciau, i bolion a fflagiau ac i'r sedd ar y domen. Diolchwyd am gymorth parod Mr Mike Yates gyda'r gwaith hwn.

11. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr a soniodd am ddefnydd cynyddol o'r Henblas a'r bwriad i wneud cais am grant i uwchraddio'r llawr uchaf.

12. Materion lleol y Cyngorwyr Tref:

- i. Pryder am fflag hysbysebu a osodir ar adegau ar y gornel o Heol Tegid sy'n arwain at Heol y Domen. Sylwyd ar blant ysgol yn camu i'r ffordd i'w osgoi a'r perygl ychwanegol mewn gwynt. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngorydd Sir, Adran y Priffyrdd a'r Heddlu gan fod perygl i bobl a cheir.
- ii. Mae pryder yn parhau am gyflymder trafndiaeth ar hyd Heol Tegid a'r Stryd Fawr.
- iii. Mae ymdrechion y Cyngor i gael caniatâd i osod lloches bws yn parhau a chytunwyd i roi'r mater ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
- iv. Cytunwyd i anfon llythyr i longyfarch tîm pêl droed Y Bala ar eu llwyddiant un uwch gynghrair Cymru ac am gynrychioli Cymru yn Ewrop.
- v. Cytunwyd i dynnu sylw Adran y Priffyrdd a'r Heddlu fod parcio am gyfnod hir yn achosi problemau yn Heol yr Orsaf.

Amser gorffen: 9.15pm